

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 11eg 2018 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Huw Charles, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts, Euros Puw, Geraint Davies a Rhys Richards.

Cydyndeimlwyd ac Euros Puw a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Adroddodd y clerc fod Un Llais Cymru yn cynnal cwrs hyfforddiant 'Rheoli Gwybodaeth' yn Wrecsam ym mis Hydref am y byddai o gymorth i sicrhau fod y Cyngor yn dilyn y camau priodol i ddiogelu data. Cytunwyd i'r clerc fynychu'r cwrs a rhannu'r costau gyda Chyngor Llandderfel.

b) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf:-

i) Derbyniwyd llythyr yn egluro fod glaswellt cae chwarae Parc wedi cael ei dorri tair gwaith yn barod eleni.

ii) Cafwyd cadarnhad fod y tyllau yn y ffordd rhwng Tŷ Isaf a Ty'n Bryn, Rhyduchaf ac wrth Tan Mynydd, Llidiardau wedi cael eu trwsio.

iii) Cafwyd cadarnhad y byddai'r swyddog llwybrau cyhoeddus yn cysylltu â'r perchennog tir i geisio clirio'r mynediad i giât y llwybr troed ar waelod rhiw pentref Rhyduchaf .

iv) Derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn egluro eu bod ar hyn o bryd yn cynnal 'Adolygiad o Derfynau Cyflymder' ac y byddai diogelwch ar yr A494 yn Llanycil yn cael ei ystyried.

c) Cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod Y Foel

Cafwyd cadarnhad gan y Corff Llywodraethol nad oedd posib rhannu term y llywodraethwyr rhwng Cynghorau Cymuned Llandderfel a Llanycil h.y. cynrychiolydd bob yn ail am ddwy flynedd yn lle pedair. Cynrychiolydd o Gyngor Llandderfel oedd ar y corff llywodraethol ar hyn o bryd ac yn dilyn hyn bydd Cyngor Llanycil yn cael y cyfle i anfon cynrychiolydd.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn a Cwmni Pum Plwy Penllyn.

i) Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf a chais am gadarnhad o bwy oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgorau'r Bartneriaeth a'r Cwmni. Datganodd Arwel Davies ei ddymuniad i roi'r gorau i'r swydd a chytunwyd i ofyn i Rhys Richards gymryd ei le.

b) Cyngor Gwynedd.

i) Gwybodaeth am y cynllun newydd 'Cynnig Gofal Plant 30 awr'.

ii) Derbyniwyd llythyr yn gwahodd y Cyngor i dalu am lenwi'r biniau halen yn ystod gaeaf 2018/19. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd yn unfrydol i ymateb yn nol i gadarnhau nad oedd bwriad gan y Cyngor Cymuned i dalu na chymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth. Er nad oedd dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i gyflenwi'r gwasanaeth biniau halen, roedd dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i ofalu am briffyrdd y Sir, a thrwy hynny ofalu am y rhai sy'n defnyddio'r ffyrdd rheini yn ystod y gaeaf.

Nid oedd yn deg fod trethdalwyr yn gorfod talu eilwaith i ofalu am y ffyrdd trwy godi'r Praesept a hwythau yn cael eu trethu eisoes am wasanaeth cynnal a chadw'r priffyrdd.

c) Un Llais Cymru.

i) Cytunwyd i fabwysiadu'r diweddariadau i'r Rheolau Sefydlog newydd 2018.

ch) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Gwahoddiad i'r Cyngor fynychu un o'r 'Nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Cyngorau Tref a Chymuned'.

ii) Chopi o'r ddogfen ymgynghoriad cychwynnol 'Cynllun Eryri'(Cynllun rheolaeth newydd).

d) Grŵp Cynefin.

i) Copi o'i Adroddiad Blynyddol.

dd) Ymgynghoriad Cyhoeddus – Hedfan Isel.

i) Llythyr gan Liz Saville-Roberts, AS yn gofyn am sylwadau ynglŷn â'r awyrennau a hofrenyddion milwrol sy'n defnyddio tirwedd fynyddog Dwyfor Meirionnydd fel lleoliad i hyfforddi peilotiaid i hedfan yn isel.

e) Cylch Meithrin / Ti a Fi Maesywaen

i) Derbyniwyd cais am lythyr o gefnogaeth i gynlluniau'r Cylch i ail leoli i adeilad newydd ar dir Ysgol Bro Tryweryn ac ehangu eu gwasanaethau gofal plant. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi eu cynllun i sicrhau dyfodol y gwasanaeth amhrisiadwy mae'r Cylch yn ei gynnig i deuluoedd yr ardal.

v) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-

NP5/72/LB143H – Newid defnydd tir i ymestyn mynwent. Eglwys Beuno Sant, Llanycil.

vi) Materion Ariannol.

i) Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Nid oedd y Clerc wedi derbyn yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol ond roedd wedi cael sicrwydd fod popeth yn ei le. Gan fod angen arddangos yr hysbysiad 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' cyn diwedd mis Medi a'r Cyngor ddim yn cyfarfod eto tan fis Hydref rhoddwyd caniatâd i'r clerch i'w arddangos.

b) Derbyniwyd ail randal y Praesept o £2000.

c) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerch yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerch (Ebr-Meh),TWE.

d) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Llyfrau Llafar Cymru a Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Capel Coffa Celyn - derbyniwyd cwyn am gyflwr y Capel gan grŵp a oedd wedi ymweld â'r ardal yn ystod yr haf. Roedd y cynghorwyr yn ymwybodol fod Dwr Cymru (a oedd yn gyfrifol am yr adeilad) wedi gwneud gwaith atgyweirio yn ddiweddar felly cytunodd Gwynedd Jones alw yno yn gyntaf cyn pasio'r cwyn ymlaen i'r asiantaeth.

- b) Toiledau Cae Garnedd, Celyn - roedd y clerc wedi derbyn cwyn am gyflwr y toiledau ac wedi ei basio'n mlaen i'r Parc Cenedlaethol gan maen nhw oedd yn gyfrifol amdanynt.
- c) Mynwent pentref Parc - roedd y clerc wedi cael ymholiad gan rywun a oedd yn olrhain hanes ei deulu. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag un o'r trigolion lleol a all fod o gymorth gyda'r ymholiad.
- ch) Seiri Rhyddion Y Bala - derbyniwyd neges fod gan y gymdeithas ddiddordeb mewn cyfrannu'r ariannol i brosiect cymunedol. Cytunodd y cynghorwyr i drafod gyda phwyllgorau'r Neuadd a Sioe Ardal Maesywaen ynglŷn â'r posibilrwydd o brynu diffibriliwr i'r ardal.
- d) Cytunwyd i basio'r materion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
- i) Pont 'Pentre Cerrig' ar y llwybr rhwng dolau Cyffdy a Tŷ Du, Parc a phont llwybr Tŷ Hen, Rhyduchaf angen ei thrwsio.
- ii) Coed cyll yn gordyfu i'r ffordd rhwng safle dwr Rhyduchaf a Gwernfeistrol ac yn achosi i lorïau gadw i'r ochr i'w osgoi. Wrth wneud hyn roedd pridd yn cael ei wthio i mewn i'r ffosydd.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Hydref 9fed yn Neuadd
Maesywaen am 8.00 y.h.**